



Coelion tywydd

Daeth y rhestr hon o goelion tywydd i law:

Chwefror chwyth y neidr o'i nyth,
Mawrth a'i tyn hi allan.

*Haf hyd Ionawr – gaeaf hyd Mai

Blwyddyn o eira – blwyddyn o lawnder

Haul gwyn gwan – glaw yn y man

Pan grafa'r Swnt – mae'n siŵr o godi'n wynt

Os syrth y glaw – o'r dwyrain y daw,
Os cyfyd hindda – o'r dwyrain daw yntau.

Cymylau blew geifr yn yr awyr – gwynt.

Dail coed yn troi wyneb i waered yn y gwynt – glaw i ddilyn.

Wennol yn hedeg yn uchel, tywydd braf,
A phan yn hedeg yn isel – glaw.

Llawnder o fwyar duon ac aeron ar y drain –
Yn darogan gaeaf caled a bwyd i'r adar.

Y gorwel yn agos – glaw,
Y gorwel yn bell – tywydd sych.

Adar y môr yn dod i'r tir – tywydd mawr ar y môr.

Ceffylau gwynion ar y môr – tywydd mawr

"Mwg" o Ogof Cadi – tywydd braf

Mae pob mis o'r flwyddyn yn *Mellthio* – Chwefror têt

*Haf hyd Ionawr – gaeaf hyd Mai

Enfys y bore – aml gawodydd

Nid yn y bore mae canmol tywydd têt

Diolch i **Awen Hamilton** am drawsgrifio rhain o'r llawysgrif gwreiddiol.

Galw'r anifeiliaid

Ydych chi'n gyfarwydd a a geiriau galw anifeiliaid fferm? Mae rhestr hynafol ar Cymuned Llen Natur (yma

<https://www.facebook.com/groups/413517082015337/permalink/2560859560614401/>)

Dyma ymateb aelodau Cymuned i'r rhestr hon:

Gis, gis i alw moch, *bowch, bowch* i alw gwartheg; rhywbeth fel *trwi, trwi* i alw lloiau. *Ho yp* i hel gwartheg Dyna dwi'n cofio, ardal Betws yn Rhos [yn rhyfeddol - y gair Llydaweg am hwch ydi *gwiz*]
Lynne Brassington

Nhaid yn galw ar ddefaid - '*Gwenno gwenno gwenno*'. Mi oeddwn yn meddwl mai *Gwenno* oedd enw pob dafad! Môn
Sioned Williams

Galw defaid, *ces ces ces*. Gwartheg *boch, boch, boch*. Ceffyl *hoi hoi* [Waunfawr hefyd DB]. Mochyn *hwch, hwch, hwch*. Ieir *chwc chwc*. Bethesda
Jen Morris

Gwres - a mwy o wres

Gwnaed Hanes ar 24 Gorffennaf eleni. Nid oherwydd y prif weinidog newydd. Ond oherwydd i ddwy record tymeredd gael eu tori, un ym Mhrydain ac un yn Ffrainc. A pha mor hir oedd y recordiau blaenorol wedi sefyll? Nid canrifoedd, nid degawdau chwaith.... dim hyd yn oed blynyddoedd. MIS! Dyna faint. Be mae hynny yn ei ddweud wrthym?



Neges gan Kara Stanford o Swydd Caerwyt:

"We are in the Dordogne. 19.18 here and 41 degrees...!!!!"

Ffenoleg y mwyar



Cnwd cyntaf Waunfawr ar y 17 Awst (chwith uchod) ond fe'm curwyd yn rhags gan Alma Davies Jones a oedd wedi gwneud jeli erbyn yr un dyddiad!



Dim ond tri cynrhonyn pry ffrwythau oedd yn y rhai Waunfawr. Dyma rhywbeth i'ch atgoffa o hen drafodaeth cychwynwyd gan Gwyn Edwards am hyn:

<https://www.facebook.com/groups/671177946410845/permalink/835445249984113?sfns=mo>

Cysylltwch â Llên Natur :
llennatur@yahoo.co.uk

Morgrug ehedog, Llandudno



Welais i 'rïoed gymaint o wylanod ac ambell jac do ar ôl y morgrug ehedog â heno (Gorffennaf 23ain, 2019). Fel arfer maent yn ymgasglu ar lethrau Rhiwledyn mewn cae rhyw unwaith y flwyddyn. Ond heno roeddynt yn ein gardd ni a rhai pawb o'n cwmpas! Hefyd, yn gwledda ar ben cloddiau!

Ysgogodd postiad Gareth nifer o sylwadau erall yr un noson:

Rhys Gwyn Roberts run fath yn Garnfadryn heno, anarferol i ni, ond llwyth o forgrug!!

Jackie Willmington Mae ffrind FB yn dweud bod morgrug yn hedfan yn Nyfnaint heddiw. Tybed ydy'r un peth yn digwydd ledled Prydain.

Catherine Pritchard O flaen terfysg dybed? [ac fe fu terfysg ychydig oriau wedyn]

Gwyn Jones R'un peth yn Llanfair Clydogau - wedi dechrau neithiwr [22 Gorff] ond wrthi heno hefyd

Margaret Williams Ac yn Llanelwy hefyd !

Olwen Evans Roedd y morgrug yn hedag yn Rhostryfan heno hefyd. Yr amodau yn union iawn iddynt mae'n rhaid.

Catherine Pritchard Bron a chael fy mwyta'n fyw ganddynt yn Mynytho rwan.

Atal y Wasg: roedd 23 Awst 2019 hefyd yn ddiwrnod morgrug ehedog yn Blaenau PW, Bethel DW, Porthaethwy MW, Gwalchmai OW, Wyddfa CR, Bangor Uchaf RT, Rhyd Ddu CJB, Niwbwrch RhW, Porthmadog EL

Cofnodion blaenorol:

<https://www.facebook.com/groups/671177946410845/permalink/833186110210027?sfns=mo>

Llên Natur Ac un arall gan Edward Keith:

<https://www.facebook.com/groups/671177946410845/permalink/811693632359275?sfns=mo>

Llên Natur Cyfraniad Twm Elias i Galwad Cynnar (Radio Cymru) am y morgrug hedegog yma:

<https://www.llennatur.cymru/Content/Upload/Cylchgrawn42.pdf> (tud. 1)

Madarch cynnar



Madarch maes cynta'r flwyddyn, Penisarwaun, bore yma **8 Mehefin** 2019 (cyfrish i 30-40 yn yr un cae (porfa geffylau dwi'n meddwl). Dim un yn y caeau eraill.

Plant Abergwyngregyn yn cael eu cadw o'r ysgol ('kept at home gathering...'; 'engaged in gathering...') i gasglu madarch ddiwedd Gorffennaf ddechrau Awst 1870-1900

Madarch maes yn Ionawr!

10 Ion 1898: Tondy (Evening Express -12 January 1898)

They are still gathering mushrooms down at Tondy.

10 Ion 1890: Port Eynon (Cambrian 28 February 1890)

MORE WINTER MUSHROOMS. TO THE EDITOR OF "THE CAMBRIAN." SIR,—January 10, I have on seven different occasions found mushrooms on Port Eynon and Overton Cliffs, the largest of which, gathered January 23, measured five inches across. I found fourteen on the 22nd instant. They were all good and well-flavoured. Yours truly, W. MELLAND.

6 Ion 1882: Llangollen (Llangollen Advertiser,

Denbighshire, Merionethshire, and North Wales Journal 1860-1893)

As a proof of the mildness of the weather ... mushrooms have been gathered on the hills, and primroses in full bloom while, as another sign, the crows are busy with their nests.

1 Ion 1878: Abergwili (Cardiff Times 6 April 1878)

EARLY MUSHROOMS AT ABERGWILLI. Some very fine specimens of mushrooms have recently been found at Abergwili, near Carmarthen, on fields belonging to Mr T. C. Jones. They were picked up as early as the 1st of January, and a specimen, measuring 13 inches in circumference, was discovered on Monday evening.

10 Ion 1866: Penarth (Cardiff Times)

Haesyn madarchaidd D Richard Evans

Mae'n rhaid i mi gyfaddef fod tyfiant madarch yn ddirgelwch llwyr i mi. Cofiaf, mwy na hanner can mlynedd yn ol, i fy ngefnder John brynu bocsiad o ryw fath o bowdr i 'w daenu yn yr hen gwt ieir 'deep litter' a oedd yn sefyll ers rhai blynnydoedd. Ia, ni fu golwg o'r un fadarch am ddwy neu dair blynedd. Ymhen amser fe gliriodd ei dad y r hen gwt ieir a chwalu'r tail ar y meusydd porfa. Y gwanwyn wedyn, roedd y borfa yn un plaster gwyn o fadarch! Wedyn dechreuodd yr hwyl. Roedd fy ngefnder yn mynnu mai y fo oedd perchen y madarch i'w gwerthu, a'i dad Glyn fynnu, yr un mor daer, mae ef oedd eu perchen. A dweud y gwir, tw'n i ddim sut y bu diwedd yr hanes.

D Richard Evans

Y swrcodyn a'i bais



Nefyn 29 Gorffennaf 2019

SWRCOD *Scoliopteryx libatrix* Herald moth

Cael ei enwau o negeswyr y canol oesoedd a wisgai swrcod (*surcoat*). Mae'r gwyfyn fel petai yn dangos ei 'bais' cyffredin o dan ei siaced neu surcod liwgar. Llundain Bethan yn dangos hyn yn dda. Bethan Vaughan Davies

Y corn carw 'plagus'



Nefyn 1 Awst 2019

Bethan Vaughan Davies

Gorffennaf 1893, Swisdir:

Aberystwyth Observer 20 Gorffennaf 1893
 A PLAGUE OF CATERpillARS. The picturesque valley of Wisenen, in...the Swiss canton of Uri]is just now suffering from a plague of caterpillars. They have covered the ground in swarms — myriads of them - they are eating up everything that is green, and the air is full of foul odours. A regular campaign has been organised by the Swiss peasants to rid themselves of this plague, and the cantonal authorities are offering 50 centimes a quart for all the dead caterpillars brought to them. For two or three days great zeal was displayed by the people, and a great clearance was made, but the frightful odour disgusted them and made them sick, and unless some more effective steps are taken the district will be stripped of its verdure. The Swiss savants say that this species of caterpillar is the *noctua graminis* [gwyfyn corn carw?]*...and they suppose that aided by the extreme heat, have pullulated with extraordinary rapidity. A few days more and the air will be filled with swarms of butterflies.*

2019: blwyddyn y fantell dramor



Un o albwm o luniau yn dangos golygfeydd gwahanol o fentyll tramor yn Waunfawr, 1 Awst eleni, "pump neu chwech mantell dramor ar yr un llwyn yr un pryd!!" Gill Brown

Mae hanes "storm" y mentyll tramor eleni yn hen stori erbyn hyn, ond i lawer ohonom digwyddodd "llygad" y storm yn wythnos yr Eisteddfod. Dyma ddigwyddiad cyntaf o'i fath ers 2009. Dyma ddwedwyd am y storm hwnnw yn fuan ar ei ôl:

Ar 15 Mai) yn y flwyddyn 2009


NIFEROEDD ANHYGOEL O FENTYLL TRAMOR YM MOROCO

Mynyddoedd yr Atlas, Morocco: "Two weeks ago [=15 Mai 2009], Robert Fuge, Joan Thompson, Sue Bryan, Paul Jeffery and I recorded 'unbelievable' numbers of PAINTED LADY butterflies migrating north across the Atlas Mountain region in Northern Morocco (North Africa). The migrating insects spanned at least 100 kilometres of road and involved many 'millions' of insects (thousands were getting run over by vehicles). This past weekend saw many of these same insects arriving in the UK and the Butterfly Conservation Website is inviting all of you to take part in a nationwide survey this coming weekend"

www.surfbirds.com/mailman/listinfo/surfbirdsnews



Tynnais i hwn yn Uwchmynydd, Aberdaron, ym 15 Mehefin 2009 (4 Mehefin 2009: Rhys Jones) SYLWCH AR Y DYGWYDDIAD - llai na mis ar ôl y cofnod o Morocco.



Dyma graff 'ffwrdd-a-hi' o gofnodion wythnosol eleni (2019) yn dangos y cyrhaeddiad Mehefin (saeth glas) cyn y "storm" fawr ohonynt ym mis Awst (saeth

Rhyfeddodau'r haf - ac ambell ddadl



Rwy'n dathlu heddiw Mae fy mhwill gardd yn dair oed, a heddiw [2 Awst 2019] ymwelodd neidr laswellt benywaidd [neidr wair] hardd am y tro cyntaf.

Pete Hill



Roeddwn yn meddwl mai mater hawdd fyddai adnabod hwn gan Haf Roberts, Llanystumdwy 2 Awst eleni
Meddai Iwan Roberts: "Wedi bod yn chwilota.....os dwi wedi dallt yn iawn, mae lindys y gwyfyn yma yn wyrdd pan yn ifanc, ond mae y rhan fwyaf yn troi yn dywyllach ar ôl tua 15 diwrnod. Mae rhai, fodd bynnag yn cadw y lliw gwyrdd golau wrth dyfu i'w llawn maint (tua 85mm ar ol rhyw 30 diwrnod). Wedi dysgu rhywbeth arall!!"

Iwan Roberts

Felly'r casgliad ydi: gwalch-wyfyn helyglys *Deilephila elpenor* *Elephant Hawk-moth* (cymal cynnar ym mywyd y lindysen, neu enghraifft o unigolyn sydd wedi cadw ei liw cynnar - mae'r ddau smotyn bychan yn cyfateb i'r llygaid ar y lindysen fwy). Dyma hen lun mwy arferol ohonni gan Wil Williams



Pryf hofrol trwynog
un o ddwy rhywogaeth

"**Mae'r gora'n methu weithiau**". Cael ein siomi oedd hi tro'ma. Penderfynson ni mai *Rhingia rosrata* prin oedd hwn (math o bryf hofrol - hawdd ei nabod wrth y trwyn) yn yr ardd, Waunfawr, ar 19 Awst. Ond o graffu a derbyn arweiniad arbenigwr dyma weld mai ei chwaer mwy cyffredin oedd hi *Rhingia campestris* oedd hi. Yr unig gysur: hwn oedd pryf cynta'r flwyddyn o'i fath **Duncan a Gill Brown**



Postiad cyntaf Cynog Lewis! Doedd neb yn rhyw siwr iawn pa un o ddau fritheg mawr oedd o, yr arian ynteu'r werdd! - ydi Cynog yn mynd i fod yn creu trafferth fel hyn yn aml deudwch?!! Gorffennaf 31, gerllaw Craig Rhos y Felin, ger Brynberian.




Cynefin Rhos y Felin ger nant fechan, llawer o goed ond mae yna lannerch sylweddol hefyd ger y graig - honnir mai o yma aeth y meini glas i Gor y Cewri. Mae'r llun wedi ei gymryd o'r we.



Gwyach Fawr Gopog gyda'i chyw - cuddliw ffantastig ar y cyw, fel masg. Llyn Traws 1 Awst 2019

Keith O'Brien




Lindys 'Gwyfyn Cimwch' *Stauropus fagi*. Afon Goedol, Coed Cymerau, 1 Awst.

<https://www.facebook.com/megan.thorman.98/videos/pcb.1072388799623089/10156130995166277/?type=3&theater&ifg=>

Meg Thorman

Llwyd y ffawydd

Dyma fapiau o ddsbarthiad y ddau bryf gyferbyn, *rosrata* ar y dde.



Cwmp fawr Twll Ffiar

Wrth bori trwy gyfrol Llafar Gwlad Dewi Tomos ar Chwareli Dyffryn Nantlle dyma ddod ar draws hanes cwmp fawr farwol Rhagfyr 1887. Gwyntyllu wedyn a oedd unrhyw berthynas rhwng y cwmp a'r tywydd. Dyma'r canlyniad:

CWYMP FAWR 29 RHAGFYR 1884 Twll Ffiar, Dyffryn Nantlle. Ai'r tywydd a'i achosodd?

20 Rhagfyr 1884: "...It was very rainy this morning, but the wind gradually [veared?] to the North, and it turned out fine in the afternoon and became much colder, and a good deal of snow fell on the mountains, and oddly enough I heard two distant claps of thunder about 4 o'clock in the afternoon and some hail fell." **The Sporting Diary of CEM Edwards, Dolserau. Dolgellau (CEME)**

23 Rhagfyr 1884: "....rhew caled..." **Dyddiadur William Jones, Moelfre, Aberdaron (WJ)**

24 Rhagfyr 1884: "....Very cold and frosty, with slight snow during the afternoon." **(CEME)**

25 Rhagfyr 1884: "...It was milder this afternoon but the wind went to the North..." **(CEME)**

27 Rhagfyr 1884: "A lovely day, the frost still holding-..... Rabbits were apparently very scarce but the cold weather was against them lying out." **(CEME)**

28 Rhagfyr 1884: "....This afternoon Wynne and I went for a walk up to the pool in the Nannau deer park and found ice nearly two inches thick...." **(CEME)**

29 Rhagfyr 1884: "....Frost very hard, but the weather was brilliantly fine...." **(CEME)**

RHYWBRYD YN YSTOD 29 RHAGFYR CYNHESODD Y TYWYDD.

Meddai Dewi Tomos (2007, Chwareli Dyffryn Nantlle. Llyfrau Llafar Gwlad, Gwasg Carreg Gwalch):

29 Rhagfyr 1884: "Ar Ragfyr y 29ain, 1884 cafwyd cwmp trychinebus yn Nhwl Ffiar pan laddwyd saith o chwarelwyr, pob un yn briod gyda rhwng un a saith o blant vr un. Gwnaed dau ar hugain o blant yn amddifad mewn un ergyd. Digwvddodd y ddamwain am 11.35 yr hwyr pan roddodd ochr ddeheuol y twll a disgyn gyda chlec arswydus. Roedd wyth o ddynion yn gweithio'r shifft nos yn y gwaelod, yn clirio rwbel o'u bargeinion. Cafodd un ohonynt, Henry Griffith, ddihangfa gyfyng, er iddo gael ei gladdu hyd at ei ysgwydd yn y rwbel. Fe'i achubwyd mewn pryd and nid oedd gan y lleill obaith. Claddwyd y saith dan filoedd o dunelli o rwbel...."

Soniodd Dewi Tomos am "ffrydlif fechan... uwchben safle'r gwmp" yn ymddangos oriau wedyn.

ERBYN 31 RHAGFYR ROEDD Y TYWYDD YN LLAWER TYNERACH:

31 Rhagfyr 1884: "The weather was much milder today, with some rain, but it did not last long and the wind was S.E..." **(CEME)**

AI CYD-DDIGWYDDIAD OEDD Y DRYCHINEB Y NOSON HONNO, YNTEU CANLYNIAD I'R NEWID TYMHEREDD?

Dirgelwch y pysgodyn nesaf



Y cyfaill Tudur Pritchard wedi anfon y cerdyn hwn (llun Alun Williams) i DB gyda chwestiwn dyrys:

"Sut mae pâl (a llawer o forwenoliaid) yn dal ail a thrydydd pysgodyn heb goli'r cyntaf".

Wedi meddwl hyn fy hun droeon ond mae'n rhaid i'r Golygydd rwan ymateb rhywsut. Mewn gair does gen i ddim syniad. Cynigion neu dystiolaeth s gwelwch yn dda.

Dyma gynnig, ac ateb, yn dod gen Elfyn Lewis:

In order to find food, puffins dive into the ocean and grasp fish between their jaws before flying away. When searching for a meal, puffins have to choose between a single large fish or multiple smaller fish. Larger fish can be difficult to hold because puffins grasp a fish around its gills, leaving the fish dangling to one side of the mouth, making it difficult to fly. Instead, puffins make numerous short, shallow dives to catch large numbers of small fish. Because each trip takes energy, it is important to maximize the number of fish the puffin can carry each time. The jaws of the puffin enable it to carry multiple small fish simultaneously. While the jaws of many other birds are hinged at one point, the puffin's beak has a flexible hinge, allowing it to control the degree to which its mouth opens. In addition, the upper and lower jaws of the puffin are joined together with a soft and stretchy piece of flesh known as a "rosette", which allows the puffin to open its mouth even wider than the average bird. The inside of the upper jaw is also textured with a series of "spines" known as denticles, which point back towards the throat. The puffin can hold its prey against the denticles with its strong tongue, and can continue hunting for more prey while holding its previous catch in place. Puffins on average carry around 10 fish at a time, but have also been sighted carrying up to 60 fish simultaneously. (cyfranwyd gan Anne-Marie Daniel & Michelle Fehler)

Oes yna casglwyr penglogau ymlith ein darllenwyr? Beth am dynnu llun nodweddion pig y pâl i ddangos hyn?

Nodyn o'r archif: 11 Mehefin 1927 *One Puffin's egg only was unearthed, and shown to a few members, but there were evidences that poachers had been previously at work in several places in search of these eggs, and no doubt, numbers are taken each season....* **The Birds [of Puffin Island] Richard Jones Proceedings of the Llandudno, Colwyn Bay and district Field Club Volume XIV**

Enwau llafar ar y ffyngau



ger Llanefydd 20 Awst 2019 (SH982700) Iwan Williams

Ddim yn aml rydyn ni'n clywed am enwau llafar neu 'werinol' ar y ffyngau. Ond efallai bod mwy ohonynt o gwmpas nag ydym yn tybio? Dyma ddywed yr arbenigwr ffwng Iwan Roberts lun arall o'r un peth gan Meinir Hughes:

Coden fwg enfawr (*Calvatia gigantea*), er, nid yn sbesimen arbennig o fawr - maent yn medru bod yn llawer iawn mwyhyd at 80cm ar draws. Rhai tua maint pel-droed yw y rhan fwyaf ohonynt, mewn porfa, coed a gerddi, ddiwedd yr haf a thrwy'r hydref, ond fel mae Meinir yn dweud, yn troi yn frown ag i bowdr yn fuan, nid ydynt yn parhau ar eu gorau yn hir iawn.

Iwan Roberts

Ond dyma ddywed John Rowlands: **"Tatan y bwgan fydda fy niweddar dad yn ei galw. (Sir Fôn)"**.

Oes yna enwau llafar eraill ar y ffyngau wedi dod i'r fei meddech? Beth am gogyrogo neu brechdan bren am ysgwydd y fedwen *Piptoporus betulinus* ?

<https://www.llennatur.cymru/Content/Upload/Cylchgrawn114.pdf>

Os wyddoch am fwy o enwau llafar o'ch ardal rhowch floedd

Bacteria haearn



"Algau coch efallai" meddai Ruth Sharrock, "Tir corsio iawn. Ger Capel Coch, Sling, Tregarth. 24 Awst 2019." Esboniad yn fan hyn:

<https://www.facebook.com/groups/671177946410845/permalink/931716367023667?sfns=mo>

Pa ddyddiad welsoch CHI'r cochni cyntaf a pha ddyddiad welsoch chi ddŵr clir yn eich ffoes chi? Ac ydi'r amseriad yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn?

Gogoniant Eglwys Llangwyfan



Cwyfan Sant, 29 Gorffennaf 2019

Iwan Williams

Y pibydd yn ei ôl...

Ma'r Greenshank modrwy oren yn ol !. I weld o yn Traeth Parlwr, Berffro bora ma [23 Awst 2019]. O'n i'n ama mod i wedi weld o ar y 19/8/19 hefyd. Wil Williams



A dyma gofnod gwreiddiol yr aderyn arbennig hwn yn ôl yn Chwefror 2016: "Dyma bibydd coeswerdd yn gwisgo modrwyon ar y ddwy goes. Fe dynnwyd y llun fis Chwefror 2016, SH349678 ym Mhig Trwyn, Aberffraw ond fe'i gwelwyd sawl tro yn yr un cyffiniau dros y 3-4 blynedd diwethaf. Mae'r gwaith ditectif wedi dechrau i weld beth yw hanes yr aderyn...."

Cofiwch glicio ar ddolenau'r bwletin hwn!



Galw ar y gwyfynod!

- noson i'r teulu

Dewch i fwynhau noswaith o ddal a chofnodi gwyfynod yr hydref ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Craflwyn, Nant Gwynant (ger Beddgelert) yng nghwmni gwybodusion.

Lapiwch yn gynnes a dowch a lluniaeth ysgafn.

Sul 29 Medi,
7.30yh.
Sunday
29 September,
7.30pm.

Twilight moths

- a family evening

Come and enjoy an evening catching and recording moths in the National Trust car park at Craflwyn, Nant Gwynant (near Beddgelert) in the company of experts.

Wrap up warm and bring refreshments.

Noddwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a chefnogwyd gan Gymdeithas Edward Llwyd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Sponsored by the Snowdonia National Park Authority and supported by Cymdeithas Edward Llwyd and the National Trust

